

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

JONES, DANIEL (1813 - 1846), cenhadwr ar ran y Methodistiaid Calфинаidd ar Fryniau Khassia, India

Enw: Daniel Jones
Dyddiad geni: 1813
Dyddiad marw: 1846
Priod: Ann Jones (née Evans)
Rhiant: Edward Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cenhadwr ar ran y Methodistiaid Calфинаidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Evan Lewis Evans

mab **Edward Jones**, Maesyplwm, Llanrhaeadr, sir Ddinbych. Pan nad oedd ond 15 oed gwnaeth adduned yn eglwys fechan Llynypandy, gerllaw yr Wyddgrug, i'w roddei ei hun i wasanaeth yr efengyl, a chan ei fod mor dduwiolfrydig edrychid arno fel un cymwys i'r weinidogaeth ac, yn ddiweddarach, i wasanaethu ar faes y genhadaeth. Aeth i Goleg y Bala yn 1842 a mynd oddi yno, yn 1844, i Lundain am gwrs pellach i'w gymhwyso i fod yn genhadwr. Wedi ei ordeinio bu'n gwasanaethu eglwysi o Rossett, gerllaw Wrecsam. Hwylodd ef a'i wraig, Ann Evans, i'r India yn 1845, a chyrraedd Bryniau Khassia y flwyddyn ganlynol. Wedi iddo fod am beth amser yn archwilio'r mannau pellennig dychwelodd i orsaf y maes yn Cherapoonjee i ymfyn adnoddau, eithr bu farw yno o dwymyn y 'jungle' a'i gladdu, efe a'i ferch fechan, gyda'i gilydd, yng nghladdfa'r genhadaeth ar 3 Rhagfyr 1846. [Ganwyd 12 Medi 1813 - *Not. W.*]

Awdur

Y Parchedig Ddr Evan Lewis Evans, (1898 - 1978)

Ffynonellau

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdŷr 1867-70)*, ii, 130

Newyddion Da sef cylchgrawn y Methodistiaid Calфинаidd, 1892, 46

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732777

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Evans, E. L., (1953). JONES, DANIEL (1813 - 1846), cenhadwr ar ran y Methodistiaid Calфинаidd ar Fryniau Khassia, India. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-DAN-1813>

CC BY-SA

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government